

Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys

Dogfen Ymgynghori

9 o'r gloch fore'r 13^{eg} o Dachwedd 2017 -
9 o'r gloch fore'r 5^{ed} Chwefror 2018

Trosolwg

Hoffem gael eich barn ar y cynnig i ddatblygu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys. Yn y ddogfen hon drwyddi draw, byddwn yn cyfeirio at yr ardal fel De Cymru.

Drwy ymgynghori fel hyn, ein nod yw rhoi gwybodaeth i chi am y gwaith rydym wedi'i wneud i greu rhwydwaith trawma mawr i Dde Cymru, gan gynnwys yr argymhellion i sefydlu un ganolfan trawma mawr a fyddai'n cael cymorth nifer o unedau trawma ar hyd a lled y rhanbarth.

Ein nod hefyd yw esbonio sut bydd y rhwydwaith trawma mawr newydd yn gweithio a sut bydd y newidiadau o fantais i bobl De Cymru.

Dechreuodd y gwaith datblygu sy'n sail i'r adroddiad hwn yn 2014, ac roedd yn cynnwys y cyrff canlynol:

- Byrddau iechyd ar hyd a lled De Cymru: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- EMRTS Cymru (y gwasanaeth cludo a throsglwyddo achosion meddygol brys)
- Y Tîm Comisiynu Cydweithredol
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Ambiwylans Brys
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda phrif swyddogion y cynghorau iechyd cymuned
- Y trydydd sector (elusennau a chyrrff gwirfoddol), yn enwedig o safbwynt gwasanaethau adsefydlu
- Arbenigwyr clinigol annibynnol.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn gofyn i chi ystyried y tri chwestiwn sy'n dilyn. (Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys hefyd yn y ffurflen ymateb ar dudalennau 33 yn y ddogfen hon).

1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid sefydlu rhwydwaith trawma mawr ar gyfer De a Gorllewin Cymru a De Powys?
2. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid seilio'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys ar argymhellion y panel annibynnol?
3. Os byddwn ni'n sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys, a ddylem ni ystyried unrhyw beth arall?

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad yn cael ei lunio a fydd yn cynnwys manylion am yr ymateb i'r ymgynghoriad ac am y cynnig terfynol i greu rhwydwaith trawma mawr i Dde Cymru. Bydd y byrddau iechyd yn ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfodydd cyhoeddus ym mis Mawrth 2018.

Rhagair

Mae llawer o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod cleifion sy'n dioddef trawma mawr yn fwy tebygol o oroesi ac o wella'n well os ydyn nhw'n cael triniaeth o fewn rhwydwaith trawma mawr. Gwelwyd enghreifftiau o fanteision rhwydwaith trawma mawr yn sgil yr ymosodiadau diweddar yn Llundain a Manceinion, pan gafodd cleifion eu trin mewn amryw o ganolfannau trawma mawr ac unedau trawma. Roedd gwybodaeth timau'r ambiwlansys am y rhwydwaith a'r cydweithio sy'n digwydd rhwng y canolfannau a'r unedau wedi caniatáu iddyn nhw frysbennu cleifion (sef penderfynu ble ddylai pob un gael triniaeth, ac ym mha drefn) yn briodol a chadw'n isel nifer y cleifion a oedd angen eu trosglwyddo i ganolfan trawma mawr. Yn y canolfannau a'r unedau trawma, roedd gan y timau clinigol yr arbenigedd a'r adnoddau i reoli anafiadau difrifol. Yn achos yr ymosodiadau yn Llundain, llwyddodd rhwydwaith trawma mawr Llundain i droi digwyddiad oedd yn golygu bod llawer o bobl wedi'u hanafu'n amryw o ddigwyddiadau llai'r oedd yr ysbytai a oedd yn derbyn y cleifion wedi gallu delio â nhw (Kingsfund, 2017).

Mae pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru'n elwa ar y ffaith fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o rwydwaith trawma mawr Gorllewin Canolbarth Lloegr sy'n cynnal y ganolfan trawma mawr yng ngogledd Swydd Stafford. Mae cleifion Gogledd Powys hefyd yn elwa ar fod yn rhan o rwydwaith trawma mawr Gorllewin Canolbarth Lloegr. De Cymru yw'r unig un o ranbarthau Cymru a Lloegr nad yw'n rhan o rwydwaith trawma mawr, sy'n golygu nad oes mynediad gan gleifion y de i ganolfan ddynodedig ar gyfer trawma mawr.

Bydd sefydlu rhwydwaith trawma mawr yn y rhanbarth yn gam pwysig ymlaen yn y dasg o ddarparu gofal brys yng Nghymru a bydd yn ategu'r gwasanaeth presennol ac yn cynnig mwy o arbenigedd a fydd yn diwallu anghenion unigolion a delio â digwyddiadau sy'n golygu anafiadau i lawer

o bobl. Bydd y rhwydwaith yn arwain at rôl ychwanegol i nifer o'r ysbytai ar hyd a lled y rhanbarth, ond yn enwedig i Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ac Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Yr Ymgynghoriad

Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin

Cymru a De Powys

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio'r cynigion i greu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys. Yn y ddogfen drwyddi draw, byddwn yn cyfeirio at yr ardal fel De Cymru.

Bydd y ddogfen yn esbonio:

- Yr hyn rydym yn ei olygu pan rydym yn sôn am drawma mawr a rhwydwaith trawma mawr
- Ein rhesymau dros argymell sefydlu rhwydwaith trawma mawr
- Beth fyddai natur rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru
- Effeithiau posibl rhwydwaith trawma mawr arnoch chi.

Mae'r ymgynghoriad yn effeithio ar Dde Cymru. De Cymru yw'r unig un o ranbarthau Cymru a Lloegr nad yw'n rhan o rwydwaith trawma mawr ac nid oes mynediad ganddo at ganolfan trawma mawr.

Nid yw Gogledd Cymru a Gogledd Powys yn rhan o'r ymgynghoriad hwn gan eu bod eisoes yn rhan o rwydwaith trawma mawr Gorllewin Canolbarth Lloegr, ac mae'r ganolfan trawma mawr sy'n gwasanaethu'r rhanbarth yn Stoke, Gogledd Swydd Stafford.

Bydd llai na 0.2% (dau o bob 1,000) o'r bobl sy'n mynd i'r adran achosion brys yn eu hysbyty lleol wedi dioddef trawma mawr. Bydd pob adran achosion brys yn gweld un neu ddau yn unig o achosion o drawma mawr mewn wythnos. Mae cynnal y sgiliau arbenigol iawn sy'n ofynnol ar gyfer y cleifion hyn yn her i staff ysbytai. Yn ystod 2016/2017 yn Ne Cymru, aeth tua 1,234 o bobl i'w hadran achosion brys ar ôl dioddef trawma mawr, o gymharu â'r cyfanswm o 617,000 o bobl a aeth i adran achosion brys (www.statscymru.llyw.cymru).

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cyrff fel yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, Grŵp Cyngori Clinigol yr Adran Iechyd, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau yn edrych ar y dulliau o ddarparu gofal trawma ar hyd a lled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiadau'n dangos yn gyson bod y gofal a'r canlyniadau'n well pan mae rhwydwaith trawma mawr ar waith.

Ar hyd a lled De Cymru, mae achosion o drawma mawr yn cael eu rheoli ar hyn o bryd drwy drefniadau anffurfiol rhwng y byrddau iechyd, ac mae rhai o'r achosion mwyaf cymhleth yn cael eu derbyn yn uniongyrchol neu eu trosglwyddo i'r canolfannau mwy yn y rhanbarth – Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd neu Ysbyty Treforys yn bennaf. Er bod gwneud hyn er lles y cleifion, nid oes iddo'r un manteision y mae tystiolaeth wedi dangos sy'n perthyn i rwydwaith trawma mawr.

Beth yw trawma mawr?

Mae'n bosibl diffinio 'trawma mawr' fel anafiadau niferus a difrifol a allai arwain at anabledd neu farwolaeth. Mae'r anafiadau'n gallu cynnwys pethau fel anafiadau difrifol i'r pen, anafiadau niferus ar ôl damweiniau ar y ffyrdd, damweiniau diwydiannol, cwmpïadau, anafiadau i lawer o bobl ar ôl digwyddiad mawr, achosion o ymgais at hunanladdiad, a chlwyfau o ynnau a chyllyll. Trawma mawr yw'r prif achos o farwolaethau ym mhob grŵp o bobl sy'n iau na 45 oed, ac mae'n un o'r prif achosion o salwch yn y tymor byr a'r tymor hir, neu afiechyd. Mae tystiolaeth o bob rhan o Gymru a Lloegr hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion sy'n hŷn na 60 oed ac sydd wedi dioddef anafiadau difrifol ar ôl syrthio o uchder sefyll (Tarn, 2017).

Beth yw rhwydwaith trawma mawr?

Mae rhwydwaith trawma mawr yn golygu bod grŵp o ysbytai, gwasanaethau brys a gwasanaethau adsefydlu'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod claf yn cael y gofal gorau ar gyfer anafiadau sy'n peryglu neu'n newid ei fywyd. Mae 26 o rwydweithiau trawma mawr ar waith ar hyd a lled Lloegr, ac mae pob un yn gwasanaethu (ar gyfartaledd) dros ddwy filiwn o bobl. (Poblogaeth Cymru yw tua 2.3 filiwn.) At ei gilydd mae rhwydwaith trawma mawr fel arfer yn cynnwys un ganolfan trawma mawr a sawl uned drawma ar hyd a lled y rhanbarth. Mae rhwydweithiau fel hyn yn bwysig yn y gwaith o reoli cleifion sy'n bellach i ffwrdd o'r ganolfan trawma mawr.

Rydych chi'n fwy tebygol o oroesi a gwella'n llwyr os byddwch chi'n dioddef trawma mawr mewn rhanbarth lle mae rhwydwaith trawma mawr ar waith, hyd yn oed os ydych chi'n bell i ffwrdd o'r ganolfan trawma mawr.

Pam ydych chi'n argymhell rhwydwaith trawma mawr i Dde Cymru?

Mae gennym nifer o resymau dros fod yn awyddus i sefydlu rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru:

- Mae mwy o bobl yn goroesi. Mae tystiolaeth yn dangos eich bod chi'n fwy tebygol (canran o rhwng 15% ac 20%) o oroesi anaf difrifol os byddwch chi'n cael eich derbyn i ganolfan trawma mawr
- Byddech chi'n cael y gofal gorau un gan dimau arbenigol sy'n darparu mynediad brys at ofal ymgynghorydd bob awr o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos
- Rydych chi'n llai tebygol o ddioddef anabledd sy'n para yn y tymor hir
- Byddwch chi angen llai o ofal yn y tymor hir gan y GIG

- Mae'n fwy tebygol y byddwch chi'n gallu mynd yn ôl i'ch gwaith ac i wneud eich gweithgareddau eraill
- Mae'n hwyluso gwaith y GIG o gynllunio gofal ei gleifion ac o ymateb i ddigwyddiadau mawr, gan wella'r gofal y byddech chi'n ei gael
- Mae angen meddygon arbenigol a staff clinigol cynorthwyol sydd bob amser ar gael ar ysbytai sy'n arbenigo ar drawma mawr. Bydd y rhwydwaith trawma mawr yn helpu i gyflawni hyn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- Mae'n llai tebygol y bydd gorfod derbyn achosion difrifol yn amhriodol yn amharu ar waith adrannau achosion brys ysbytai lleol, gan fod y fath achosion yn gallu effeithio ar allu'r adran i reoli ei gwaith arferol o ddydd i ddydd.

Mae sefydlu rhwydwaith trawma mawr hefyd yn cynnig manteision sylweddol i'r cyrff unigol sy'n rhan o'r rhwydwaith:

- Mae'n gyfle i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd y staff sydd eisoes yn gweithio yn unedau trawma ac ysbytai'r ardal am eu bod yn gweithio'n agosach gyda'r clinigwyr arbenigol iawn a'r staff eraill sydd yn y ganolfan trawma mawr
- Mae rhwydwaith sydd â chanolfan trawma mawr ac unedau trawma sydd wedi'u diffinio'n glir yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar recriwtio yn y rhwydwaith drwyddo draw
- Mae rhwydwaith trawma mawr yn debygol o gael cefnogaeth y Ddeoniaeth, ac mae'n fwy tebygol y bydd meddygon dan hyfforddiant yn cael eu lleoli yn ysbytai'r rhwydwaith i wneud eu hyfforddiant

- Darperir y gwasanaethau o fewn rhwydwaith clinigol sy'n hwyluso gwelliannau drwy weithredu fel system gyfan integredig, gan arwain at wasanaethau safonol a gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion
- Bydd y gwasanaethau clinigol ar gyfer trawma mawr yn Ne Cymru'n gyson â'r rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn caniatáu i'r GIG yng Nghymru i fod yn fwy effeithiol fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i'r achosion brys mwyaf.

Beth fydd natur y rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru?

Mae gofal trawma sy'n dda'n golygu:

- Eich cludo chi i'r lle iawn ar yr adeg iawn i gael y math iawn o ofal
- Adnabod cyn gynted â phosibl pa mor ddifrifol yw'ch anaf, a hynny'n ddelfrydol ar safle'r digwyddiad ei hun
- Ymchwiliad manwl cyn gynted ag y byddwch chi'n cyrraedd yr ysbyty. Os ydych chi wedi dioddef nifer o anafiadau sy'n gymhleth ac yn cyfrif fel trawma mawr a difrifol, dylech chi gael eich cludo'n uniongyrchol (neu eich trosglwyddo) i ganolfan trawma mawr.

Y ganolfan trawma mawr

Mae un ganolfan trawma mawr fel arfer ym mhob rhwydwaith trawma mawr. Gan fod trawma mawr yn anghyffredin ac yn gymhleth ei reoli, mae'r gwasanaethau sydd ar gael mewn canolfan trawma mawr yn arbenigol iawn. Maen nhw ar gael bob awr o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos, ac mae claf sydd wedi cael anaf trawma mawr a difrifol eu hangen nhw yn gyflym fel arfer. Ni fydd y gwasanaethau arbenigol iawn hyn ar gael yn yr unedau trawma.

Unedau trawma

Bydd nifer o unedau trawma'n ategu gwaith y ganolfan trawma mawr. Mae'r ysbytai hyn yn cynnig gwasanaethau a gofal arbenigol ar lefel uwch na'r rhai sydd ar gael mewn adran achosion brys ysbyty lleol. Bydd unedau trawma'n rhan bwysig o'r gwaith o gynnig gwasanaethau achub bywyd i gleifion sydd awr o leiaf o bellter o ganolfan trawma mawr. Bydd gofyn i unedau trawma allu adnabod y cleifion hynny nad ydyn nhw'n gallu eu trin, gan eu trosglwyddo'n gyflym i'r ganolfan trawma mawr.

Cyn gynted ag y mae claf yn ddigon iach i gael ei ryddhau o'r ganolfan trawma mawr, efallai y caiff ei drosglwyddo i uned drawma yn ei ardal i barhau i gael triniaeth a gofal.

Adran achosion brys mewn ysbyty lleol

Nid yw adran achosion brys mewn ysbyty lleol yn derbyn cleifion sy'n dioddef trawma mawr fel mater o drefn. Byddwch chi'n dal i fynd i adran achosion brys eich ysbyty lleol os ydych chi'n ddifrifol sâl neu wedi cael anaf nad yw angen y gwasanaethau arbenigol iawn sydd ar gael mewn canolfan trawma mawr yn unig, neu'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael yn yr unedau trawma yn unig.

Gan nad oes y gwasanaethau arbenigol i drin cleifion ag anafiadau trawma mawr ar gael yn yr adran achosion brys mewn ysbyty lleol, bydd gan yr ysbyty lleol drefn i sicrhau os byddwch chi wedi cyrraedd ei adran achosion brys yn dioddef o anafiadau trawma mawr, byddwch chi'n cael eich trosglwyddo i'r ganolfan trawma mawr neu'r uned drawma.

Adsefydlu

Mae gwasanaethau adsefydlu'n rhan bwysig o'r rhwydwaith trawma mawr ac yn rhan hanfodol o ofal trawma da ac o sicrhau bod y claf yn gwella'n dda. Bydd anghenion cleifion o ran adsefydlu'n cael eu hasesu'n fuan ar ôl eu derbyn i'r ganolfan trawma mawr. Bydd y gwasanaeth adsefydlu'n

digwydd yn y ganolfan ei hun ac yn parhau mewn uned drawma neu yn y gymuned. Bydd Ysbyty Rookwood yng Nghaerdydd ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn dal i ddarparu gwasanaethau adsefydlu arbenigol iawn ar hyd a lled De Cymru.

Gofal cyn mynd i'r ysbyty

Bydd gofyn hefyd i rwydwaith trawma mawr gael cymorth gwasanaeth gofal cyn-ysbyty sy'n effeithiol ac efallai'n cynnwys asesu'r claf a'i drosglwyddo i'r lle mwyaf addas i gael triniaeth.

Sut mae cleifion yn cael eu rheoli ar hyn o bryd?

Asesir amgylchiadau pob claf unigol yn y fan a'r lle. Er hynny, os oes amheuaeth eich bod chi wedi dioddef trawma mawr, bydd y gwasanaeth ambiwlans yn eich cludo chi i'r ysbyty agosaf sydd ag adran achosion brys. Efallai bydd ambiwlans yn eich trosglwyddo wedi hynny i gael y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael mewn rhannau penodol o Gymru yn unig – er enghraifft, gwasanaethau niwrolegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd a llawdriniaeth ar gyfer llosgiadau a/neu lawfeddygaeth blastig yn Ysbyty Treforys. Bydd y clinigwyr yn yr adran achosion brys yn yr ysbyty cyntaf yn penderfynu a oes angen eich trosglwyddo i gael gwasanaethau arbenigol mewn ysbyty arall.

Mae angen gwasanaethau ar lefel uwch ar rai cleifion, naill ai ar safle'r digwyddiad neu yn ystod y broses o'u trosglwyddo i gael gwasanaethau arbenigol. Mae EMRTS Cymru (y gwasanaeth cludo a throsglwyddo achosion meddygol brys), sydd dan arweiniad clinigwyr ymgynghorol, wedi darparu hofrenyddion a cheir ymateb yr Ambiwllans Awyr er 2015 er mwyn ategu gwaith Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd 12 awr y diwrnod, saith diwrnod yr wythnos ym mhob rhan o Gymru, a'r gobaith yw ei droi'n wasanaeth 24-awr.

Sut byddai rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru'n effeithio arnaf i?

Mae rhwydwaith trawma'n rhan bwysig o'r gwaith o reoli cleifion sydd ymhellach o'r ganolfan trawma mawr. Bydd y rhwydwaith trawma mawr yn helpu ysbytai ar hyd a lled y rhanbarth i weithio gyda'i gilydd i sicrhau eich bod chi'n mynd i'r lle gorau i gael eich triniaeth.

Os byddwch chi wedi dioddef trawma mawr, bydd criw'r ambiwlans sy'n ymateb i'r alwad yn eich asesu chi a, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, yn mynd â chi ar unwaith i'r ganolfan trawma mawr i gael triniaeth frys. Fe allech chi gael eich cludo mewn hofrennydd neu ar y ffyrdd. Efallai bydd hyn yn golygu eu bod nhw'n gyrru heibio ysbyty lleol arall i fynd i'r ganolfan trawma mawr. Pwrpas gwneud hyn yw sicrhau eich bod chi'n cael mynediad ar unwaith i wasanaethau ac offer hynod o arbenigol, a staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol.

Os ydych chi'n bell o ganolfan trawma mawr neu os oes angen triniaeth frys arnoch chi ac nid yw'n bosibl i griw'r ambiwlans reoli eich anafiadau, efallai byddwch chi'n cael eich cludo i uned drawma leol yn gyntaf, lle bydd y staff yn sefydlogi eich cyflwr ac yn rheoli eich anafiadau, cyn eich trosglwyddo i'r ganolfan trawma mawr.

Beth ydych chi eisoes wedi'i wneud wrth datblygu rhwydwaith trawma mawr ar gyfer De Cymru?

Rydym wedi gwneud llawer o waith yn pwyso a mesur y ffyrdd o ddatblygu rhwydwaith trawma mawr i Dde Cymru. Yn 2014 cafodd bwrdd project a grŵp cyfeirio clinigol eu sefydlu i ystyried datblygu rhwydwaith trawma mawr. Datblygwyd model ar gyfer gwasanaethau trawma mawr i oedolion a phlant, ac fe'i cymeradwywyd gan y bwrdd project a'r byrddau iechyd.

Mae'r model gwasanaeth wedi'i sefydlu ar safonau cenedlaethol, sy'n pennu'r gwasanaethau a ddylai fod ar gael mewn canolfan trawma mawr ac unedau trawma, a sut y dylai'r rhwydwaith weithio. Mae'r safonau wedi'u seilio ar farn arbenigwyr a'r ymchwil meddygol diweddaraf, ac maen nhw'n cynnwys canllawiau cyrff fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, y Colegau Brenhinol, y sefydliad *Brain Trauma Foundation*, a'r gymdeithas *British Orthopaedic Association*.

Yn 2015, mewn gweithdy dan arweiniad clinigwyr, ystyriwyd y dewisiadau a oedd ar gael o ran datblygu rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru. Ymhlith y bobl a ddaeth i'r gweithdy oedd cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fe wnaethom ni wahodd hefyd gynrychiolwyr cleifion o grwpiau gwirfoddol ac elusennol o bob rhan o'r rhanbarth, a gwahoddwyd y cynghorau iechyd cymunedau i arsylwi. Ymhlith y dewisiadau a oedd dan sylw yn ystod y gweithdy oedd:

- Gwneud dim
- Peidio â sefydlu canolfan trawma mawr yn Ne Cymru, ond byddai cleifion yn cael mynediad at wasanaethau yn Lloegr (Bryste)
- Sefydlu un ganolfan trawma mawr yn Ysbyty Treforys i wasanaethu De Cymru
- Sefydlu un ganolfan trawma mawr yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd i wasanaethu De Cymru
- Sefydlu dau safle, y naill yn Ysbyty Treforys a'r llall yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.

Cytunwyd i ddileu'r dewis i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa sy'n golygu mai De Cymru yw'r unig ardal heb rwydwaith trawma mawr. Cytunwyd hefyd fod angen gwasanaeth canolfan trawma mawr o fewn ffiniau'r rhanbarth os oedd disgwyl iddi wasanaethu poblogaeth o tua dwy

filiwn o bobl. Roedd hyn yn golygu diystyru'r dewis o ddefnyddio Bryste. Rhoddwyd sylw yn ystod y gweithdy hefyd i'r dewis o sefydlu dau safle ond diystyrwyd y dewis hwn hefyd gan y byddai'n amhosibl cynnal canolfan trawma mawr ar ddau safle, o ystyried maint y rhanbarth.

Dewis cyntaf y bobl a oedd yn bresennol yn y gweithdy, felly, oedd sefydlu canolfan trawma mawr ar un safle, gyda chymorth nifer o unedau trawma. Byddai adrannau achosion brys ysbytai lleol yn parhau i weld pobl sy'n ddifrifol sâl a rhai ag anafiadau difrifol.

Ar ôl y gweithdy, aethom ati i wneud asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. (Rhaid i ni wneud yr asesiadau hyn wrth newid gwasanaethau mewn unrhyw ffordd er mwyn atal gwahaniaethu yn erbyn pobl yn ein cymdeithas sydd wedi cael eu dynodi fel rhai difreintiedig neu hawdd eu niweidio.) Er bod trawma mawr yn effeithio ar bawb, mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi mai hwn yw'r prif achos o farwolaethau ymhlith pobl sy'n iau na 45 oed a'i fod yn effeithio ar nifer cynyddol o gleifion sy'n hŷn na 60 oed ac sy'n dioddef anafiadau difrifol ar ôl syrthio o uchder sefyll (www.tarn.ac.uk).

Pam mai dim ond Ysbyty Treforys yn Abertawe ac Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd oeddech chi wedi'u hystyried fel safle'r ganolfan trawma mawr?

Ysbyty Treforys yn Abertawe ac Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd oedd yr unig ddau ysbyty yn y rhanbarth a allai efallai fodloni'r meini prawf ar gyfer canolfan trawma mawr. Natur arbenigol y gwasanaeth a'r angen iddo gael ei leoli gyda gwasanaethau arbenigol eraill yw'r rhesymau dros ddewis y ddau ysbyty.

Ble fydd y ganolfan trawma mawr wedi'i lleoli?

Ar sail gwaith y bwrdd project a chanlyniadau'r gweithdy clinigol, aethom ati i ofyn i banel annibynnol o glinigwyr arbenigol sy'n gweithio ym maes trawma mawr i edrych ar y dystiolaeth ac i gynnig cyngor ar yr ysbyty gorau lle gellid lleoli'r ganolfan trawma mawr. Roedd pob un o'r byrddau iechyd yn ategu'r broses hon ac wedi cytuno iddi mewn cyfarfodydd cyhoeddus o'u byrddau. Rydym wedi rhoi gwybodaeth hefyd i brif swyddogion y cynghorau iechyd cymunedau.

Cadeirydd y panel annibynnol oedd yr Athro Chris Moran, y Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol dros Drawma ar ran y GIG yn Lloegr sydd hefyd yn Athro Llawfeddygaeth Drawma Orthopedig yn Ysbyty Prifysgol Nottingham. Roedd aelodau'r panel yn cynnwys wyth o bobl a wahoddwyd i gymryd rhan ar sail eu henw da'n genedlaethol ac yn rhyngwladol fel arbenigwyr ym meysydd gofal trawma a datblygu systemau trawma.

Estynnwyd gwahoddiadau hefyd i gynrychiolwyr o bob rhan o'r gwasanaeth iechyd yn y rhanbarth ac i randdeiliaid allweddol eraill i fod yn bresennol yn nigwyddiad y panel annibynnol. Yn eu plith oedd cynrychiolwyr clinigol o fyrddau iechyd Aneurin Bevan, Cwm Taf, Hywel Dda a Phowys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, cynghorau iechyd cymunedau, EMRTS Cymru (y gwasanaeth cludo a throsglwyddo achosion meddygol brys), Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Phwyllgor y Gwasanaethau Ambiwylans Brys.

Wrth bwysu a mesur ble y dylai'r ganolfan trawma mawr gael ei lleoli, rhestrodd y panel y tri phrif ffactor canlynol.

- Rhyngddibyniaethau clinigol (gwasanaethau y mae'n rhaid eu lleoli gyda'i gilydd)

Mae'r safonau ar gyfer trawma mawr yn rhestru'r gwasanaethau a ddylai fod ar gael mewn canolfan trawma mawr. Mae Ysbyty Treforys ac Ysbyty Prifysgol Cymru eisoes yn darparu'r mwyafrif o'r gwasanaethau arbenigol hyn. Er hynny, dim ond o Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd y mae niwrolawdriniaethau arbenigol ac Ysbyty Plant Cymru'n cael eu darparu. Dim ond o Ysbyty Treforys y darperir gwasanaethau ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig.

- Màs critigol

Mae màs critigol yn cyfeirio at y nifer isaf o bobl sy'n ofynnol i wneud gwasanaeth, sef trawma mawr yn yr achos hwn, yn gynaliadwy. Gan fod poblogaeth Cymru'n fach ac mae gwasanaethau fel niwrolawdriniaeth, llawdriniaeth ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig mor arbenigol, dim ond o un ysbyty y gellir eu darparu i'r cyfan o Dde Cymru. Mae'r un peth yn wir am ganolfan trawma mawr.

- Amseroedd teithio

Bu'r panel hefyd yn ystyried daearyddiaeth Cymru gan bwysleisio eich bod chi'n fwy tebygol o oroesi trawma mawr pan mae canolfan trawma mawr yn bodoli, waeth faint bynnag o amser mae'n cymryd i deithio iddi. Ble bynnag y bydd y ganolfan trawma mawr yn cael ei lleoli, bydd rhai o drigolion ardaloedd Hywel Dda a Phowys cryn bellter oddi wrthi. Nid yw hon yn sefyllfa anarferol ac mae'r mwyafrif o rwydweithiau trawma yn Lloegr hefyd yn cynnal gwasanaethau sydd cryn bellter o'r ganolfan trawma mawr. Nid oedd y panel o'r farn fod defnyddio naill ai Ysbyty Treforys neu Ysbyty Athrofaol Cymru fel canolfan trawma mawr o fwy o fantais na'r llall o ran lleoliad daearyddol y ddau ysbyty.

Bydd rôl allweddol i'r rhwydwaith ehangach, gan gynnwys yr unedau trawma, y polisïau a'r canllawiau sy'n ategu'r gwaith o drosglwyddo

cleifion i ganolfan trawma mawr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac EMRTS Cymru, yn y gwaith o reoli'r cleifion sydd efallai'n byw ymhellach o'r ganolfan trawma mawr.

Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, gwnaeth y panel yr argymhellion canlynol:

- Dylid mynd ati'n gyflym i sefydlu rhwydwaith trawma mawr sydd ag isadeiledd llywodraethu clinigol yn Ne Cymru. Nod isadeiledd llywodraethu clinigol yw sicrhau bod safon gwasanaeth yn uchel, ei fod yn canolbwyntio ar y cleifion, a bod yr arweiniad clinigol yn ddo'n gadarn
- Dylai'r canolfannau trawma mawr i oedolion a'r un i blant fod ar yr un safle
- Dylai'r ganolfan trawma mawr fod yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd
- Dylai Ysbyty Treforys fynd yn uned drawma fawr a dylai gael rôl arweiniol yn y rhwydwaith trawma mawr
- Dylid gosod amserlen glir a realistig ar gyfer y gwaith o greu'r rhwydwaith trawma.

Pam bod y panel wedi argymhell mai Ysbyty Athrofaol Cymru dylai fod yn ganolfan trawma mawr?

Ar ôl pwysu a mesur y dystiolaeth, penderfynodd y panel mai darparu gwasanaethau arbenigol iawn fel niwrolawdriniaethau i oedolion a phlant ar yr un safle â'r ganolfan trawma mawr oedd y prif ffactor wrth ddod i benderfyniad ar leoliad y ganolfan trawma mawr. Sail y penderfyniad yw'r pwysigrwydd bod y gwasanaethau arbenigol hyn ar gael ar unwaith i rywun sydd wedi dioddef trawma mawr. Mae angen cymorth ar gyfer anafiadau i'r pen ar tua 60% o'r achosion o drawma mawr ac mae darparu'r gwasanaeth hwn ar y safle'n un o'r gofynion isaf.

Roedd y panel yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig fel rhan o'r rhwydwaith, ac er nad yw'n hanfodol fod y ganolfan ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig ar yr un safle â'r ganolfan trawma mawr, mae'n bwysig eu bod nhw'n gweithio gyda'i gilydd.

Beth mae uned drawma fawr yn Ysbyty Treforys yn ei olygu?

Argymhelliad y panel oedd y dylai Ysbyty Treforys fod yn uned drawma fawr. Fel uned drawma fawr, mae'n debygol y bydd Ysbyty Treforys yn gallu rheoli rhai cyflyrau na fydd unedau trawma eraill yn gallu eu rheoli. Mae hyn yn golygu efallai na fyddai angen trosglwyddo claf i'r ganolfan trawma mawr ar ôl iddo gael ei asesu, ond bydd Ysbyty Treforys yn parhau i'w reoli. Efallai fod sefyllfa unedau trawma eraill yn y rhanbarth yn wahanol.

Bydd Ysbyty Treforys hefyd yn cael rôl arweiniol yn y rhwydwaith trawma mawr. Mae hyn yn unol â'r drefn yn Lloegr, lle mae ysbyty arall heblaw'r un lle mae'r ganolfan trawma mawr wedi'i lleoli, yn arwain y rhwydwaith trawma mawr. Mae ysbyty arweiniol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith trawma mawr yn cael ei gydlynw a'i fod yn canolbwyntio'n bennaf ar y cleifion.

Sut byddwch chi'n penderfynu ar leoliad yr unedau trawma eraill?

Mae lleoliad yr unedau trawma a'r ffordd y bydd cynlluniau'r gwasanaeth adsefydlu'n cael eu rhoi ar waith yn bwysig, ond nid oeddem wedi cynnwys yr agweddau hyn fel materion i'r panel annibynnol eu trafod. Er hynny, nid ydym yn cynllunio i roi pob rhan o'r rhwydwaith trawma mawr ar waith ar unwaith. Bydd y broses o ddatblygu rhwydwaith trawma mawr yn Ne Cymru'n digwydd dros nifer o flynyddoedd. Mae pennu lleoliad y ganolfan trawma mawr yn gyntaf o help yn y dasg o benderfynu ar leoliad yr unedau trawma. Ym mha ysbyty bynnag y mae'r ganolfan trawma

mawr wedi'i lleoli, bydd angen uned drawma ar Ysbyty Treforys yn Abertawe ac Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd fel ei gilydd.

Bydd angen i'r byrddau iechyd unigol adnabod lleoliad y gweddill o'r unedau trawma (os bydd rhai) ar gyfer eu hardaloedd. Bydd Rhwydwaith Gofal Critigol a Thrawma Cymru'n eu helpu i benderfynu ar hyn drwy edrych ar y ffordd maen nhw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer uned drawma, fel y mae'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer trawma mawr yn eu disgrifio. Os nad yw ysbyty'n uned drawma, bydd yn parhau i weithredu fel adran achosion brys ysbyty lleol, gan drin pobl ag anafiadau a mathau o salwch nad ydynt angen y cyfleusterau mewn uned drawma neu ganolfan trawma mawr.

Beth fydd cost rhwydwaith trawma mawr?

Rydym yn cydnabod y bydd angen i ni fuddsoddi mwy o arian yn yr adeiladau a'r staff i fodloni safonau rhwydwaith trawma mawr. Yn Lloegr, digwyddodd y broses o sefydlu rhwydweithiau trawma mawr dros gyfnod o amser, ar ôl neilltuo peth arian i dalu am y datblygiadau cychwynnol a oedd yn angenrheidiol. Roedd y costau hyn tua £2 filiwn i bob rhwydwaith. Ar ben hynny comisiynir trawma mawr yn Lloegr fel gwasanaeth arbenigol. Mae hyn yn golygu bod ysbytai a gwasanaethau unigol yn cael arian i dalu costau'r achosion maen nhw'n eu gweld. Mae'r system wedi cael ei ddylunio i wella gwasanaethau a chanlyniadau cleifion, i fodloni safonau trawma mawr ac i hwyluso'r broses o ddychwelyd cleifion i'w hysbyty lleol cyn gynted â phosibl.

Mae gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Sheffield ar ran y GIG yn Lloegr yn dangos bod buddsoddi mewn rhwydweithiau trawma yn Lloegr wedi bod yn gost-effeithiol iawn wrth eu barnu yn ôl canllawiau NICE ar gostau gwella canlyniadau cleifion (adroddiad SchARR, 2015).

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd gofyn i ni wneud rhagor o waith i ddatblygu costau manylach ac i ystyried sut y dylai'r rhwydwaith gael ei ariannu. Bydd gofyn i'r byrddau iechyd ddefnyddio'r broses gynllunio ffurfiol i ystyried y costau a gytunwyd ar gyfer y rhwydwaith.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn para am 12 wythnos rhwng 9 o'r gloch fore'r 13^{eg} o Dachwedd 2017 hyd 9 o'r gloch fore'r 5^{ed} o Chwefror 2018. Hoffem gael eich barn ar y canlynol.

1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys?
2. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid seilio'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys ar argymhellion y panel annibynnol?
3. Os byddwn ni'n sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys, a ddylem ni ystyried unrhyw beth arall?

Byddwn yn cynnal amrywiaeth eang o drafodaethau gyda'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall y datblygiadau rydym yn eu cynnig, gan gynnwys sut bydd y system drawma'n gweithio er lles cleifion ac yn helpu'r GIG yng Nghymru i ddiwallu anghenion cleifion. Bydd cyfle yn ystod y trafodaethau hyn i bobl rhoi eu barn.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn manylu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ac ar y cynnig terfynol i greu rhwydwaith trawma mawr i Dde Cymru. Bydd y byrddau iechyd yn pwysu a mesur yr adroddiad mewn cyfarfodydd cyhoeddus ym mis Mawrth 2018.

Sut gallaf i gyfrannu at yr ymgynghoriad?

Os ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am y cynigion i greu rhwydwaith trawma mawr yn Ne a Gorllewin Cymru a De Powys neu os ydych chi'n awyddus i ymateb i'r ymgynghoriad, gallwch chi fynd i'r wefan www.iechydcyhodduscymru.org/ymgynghoriadtrawmamawr neu gysylltu â ni yn un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost: NHSWHC.strategicplanning@wales.nhs.uk
Post: Freepost MAJOR TRAUMA CONSULTATION
(Rhaid i chi ysgrifennu'r cyfeiriad yn union fel yr uchod, gan gynnwys y priflythrennau)
Ffôn: 02920 502674

Neu gallwch chi gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eich ardal i ofyn am fwy o wybodaeth:

Cyngor Iechyd Llawr Cyntaf
Cymuned Abertawe Ysbyty Cimla
Bro Morgannwg Castell-nedd SA11 3SU
Ffôn: 01639 683490
E-bost: office.abm@waleschc.org.uk

Cyngor Iechyd Tŷ Raglan
Cymuned Aneurin 6-8 William Brown Close
Bevan Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk

**Cyngor Iechyd
Cymuned Caerdydd
a Bro Morgannwg** Canolfan Fusnes Pro-Copy (Cefn)
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU
Ffôn: 02920 750112
E-bost: Cavog.chiefofficer@waleschc.org.uk

**Cyngor Iechyd
Cymuned Cwm Taf** Uned 10, Swyddfeydd Morwrol
Teras Coetir
Maesycoed
Pontypridd
CF37 1DZ
Ffôn: 01443 405830
E-bost: Enquiries.CwmTafCHC@waleschc.org.uk

**Cyngor Iechyd
Cymuned Hywel
Dda** **Pwyllgor Lleol Sir Gaerfyrddin**
Swît 5, Llawr Cyntaf
Tŷ Myrddin
Heol yr Hen Orsaf
Caerfyrddin
SA31 1BT
Ffôn: 01646 697610

Pwyllgor Lleol Ceredigion
Adeilad Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR
Ffôn: 01646 697610

Pwyllgor Lleol Sir Benfro

Swît 18, Cedar Court

Haven's Head

Aberdaugleddau

Sir Benfro

SA73 3LS

Ffôn: 01646 697610

E-bost: hyweldda@waleschc.org.uk

**Cyngor Iechyd
Cymuned Powys**

Swyddfa Aberhonddu

Llawr Cyntaf

Neuadd Brycheiniog

Ffordd Cambrian

Aberhonddu

LD3 7HR

Ffôn: 01874 624206

E-bost: Katie.blackburn@waleschc.org.uk

Swyddfa'r Drenewydd

Ystafell 204 Tŷ Ladywell

Y Drenewydd

SY16 1JB

Ffôn: 01686 627632

E-mail: Jayne.thornhill@waleschc.org.uk

Geirfa

Llawdriniaeth at losgiadau a llawfeddygaeth blastig	<p>Ysbyty Treforys yw'r Ganolfan Llosgiadau Oedolion ar ran Rhwydwaith Llosgiadau De-orllewin y Deyrnas Unedig. Mae'n trin cleifion ag anafiadau llosgi difrifol, anffurfiadau cynhenid, heintiau, canser, ac ati.</p> <p>(www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/page/39301)</p>
Llwybr gofal	<p>Defnyddir y term llwybrau gofal, a elwir hefyd yn llwybrau clinigol, llwybrau critigol, llwybrau gofal integredig, cynlluniau rheoli achos, llwybrau gofal clinigol neu'n fapiau gofal, i gynllunio rhaglen o ofal i'r claf, a'i ofal dilynol.</p> <p>(www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/For-professionals/Research/CPA-Effectiveness_of_care_pathways.pdf?dtrk=true)</p> <p>Mae llwybrau gofal yn disgrifio'r camau gorau i'w dilyn wrth drin claf sy'n dioddef o gyflwr neilltuol neu sydd ag anghenion penodol. Eu bwriad yw manylu ar y driniaeth a hwyluso'r broses o gofnodi cynnydd claf neu glient. Maen nhw wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn cynnwys cyfraniad gweithwyr o wahanol feysydd a gwasanaethau arbenigol.</p>
Grŵp cyfeirio clinigol (CRG)	<p>Grŵp o glinigwyr, comisiynwyr, arbenigwyr ar iechyd y cyhoedd, cleifion a gofalwyr sy'n defnyddio'u gwybodaeth a'u harbenigedd i gynghori'r GIG yn Lloegr ar y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau arbenigol.</p> <p>(www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/)</p>

Arbenigwr clinigol	Unigolyn sy'n arbenigo ar fathau neilltuol o glefydau neu agweddau penodol ar feddygaeth.
Cynghorau iechyd cymunedau	Cyrff annibynnol, a sefydlwyd dan gyfreithiau, sy'n gwrandu ar sylwadau pobl o bob rhan o Gymru ar eu GIG ac sy'n sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd yn gwrandu ac yn gweithredu. (www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/page/71598).
Ymgynghori	Proses sy'n golygu gofyn i'r cyhoedd roi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Prif nod y broses ymgynghori yw gwella effeithlonrwydd a thryloywder ac annog y cyhoedd i gyfrannu at brojectau mawr neu gyfreithiau a pholisïau.
Grŵp Cynghori Clinigol Cenedlaethol – trawma mawr	Mae'r grŵp yn cynghori ar ofal trawma yn y gwahanol ranbarthau, gan osod safonau'r gwasanaeth ar gyfer darparu gofal trawma mawr. (www.nhs.uk/NHSEngland/AboutNHSservices/Emergencyandurgentcareservices/Pages/Majortraumaservices.aspx)
Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC)	Mae'r pwyllgor yn gweithredu ar ran byrddau iechyd ac mae'n dal Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gyfrif fel y corff sy'n darparu gwasanaethau ambiwlans brys.
Gofal brys	Camau achub bywydau mewn sefyllfaoedd sy'n peryglu bywydau pobl.
EMRTS Cymru (y gwasanaeth cludo a throsglwyddo achosion meddygol brys)	Gwasanaeth sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch ac yn darparu gofal critigol mewn achosion brys sy'n peryglu bywydau neu goesau/breichiau pobl; mae angen trosglwyddo'r cleifion yn gyflym i ganolfan addas i gael triniaeth arbenigol frys.
Asesiad o'r effaith	Techneg sy'n adnabod effeithiau polisïau,

ar gydraddoldeb	gwasanaethau a swyddogaethau ar gleifion a staff. Mae'n helpu byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau ardderchog drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cyfateb i anghenion eu cleifion a'u rhanddeiliaid.
Deddf Rhyddid Gwybodaeth	Yn darparu mynediad cyhoeddus i wybodaeth mae awdurdodau cyhoeddus Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ei chadw, ac awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig ond sydd wedi'u lleoli yn yr Alban.
Bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd	Rhai o gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n darparu gwasanaethau iechyd a lles i boblogaethau eu hardaloedd.
Adran achosion brys ysbyty lleol	Yr adran mewn ysbyty sy'n gyfrifol am ddarparu gofal meddygol a llawfeddygol i gleifion sydd angen gofal ar unwaith. Maen nhw hefyd yn cael eu galw'n adrannau damweiniau neu adrannau damweiniau ac achosion brys.
Digwyddiad mawr	Digwyddiad sylweddol sy'n galw am ymateb sydd y tu hwnt i'r un rheolaidd. Mae digwyddiad mawr yn gallu effeithio ar lawer o bobl.
Trawma mawr	Mae'r term 'trawma mawr' yn disgrifio anafiadau difrifol, gan gynnwys anafiadau i'r pen, clwyfau difrifol ac achosion lle mae rhywun wedi torri sawl asgwrn, sy'n peryglu bywyd yr unigolyn ac a allai arwain at farwolaeth neu anabledd difrifol. (www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2014/04/d15-major-trauma-0414.pdf)
Canolfan trawma mawr	Ysbyty sy'n arbenigo mewn nifer o feysydd, ar un safle, ac sy'n darparu gofal trawma. Hwn yw

	canolbwynt y rhwydwaith trawma ac mae'n rheoli anafiadau o bob math, dan ofal meddygon ymgynghorol.
Rhwydwaith trawma mawr	Mae rhwydwaith trawma mawr yn cyfeirio at grŵp o ysbytai, gwasanaethau brys a gwasanaethu adsefydlu sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod claf yn cael y math gorau o ofal sy'n briodol i anafiadau sy'n peryglu neu'n newid ei fywyd.
Anafiadau i lawer o bobl	Mae'n cyfeirio at unrhyw nifer o bobl sy'n dioddef anafiadau mewn cyfnod cymharol fyr, o ganlyniad fel arfer i un digwyddiad fel damwain gydag awyren filwrol, corwynt, llifogydd, daeargryn neu ymosodiad arfog, ac mae'r digwyddiad yn galw am fwy o gefnogaeth na'r hyn sydd ar gael yn lleol.
Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)	Corff sy'n cynnig canllawiau, cyngor a gwasanaethau gwybodaeth i weithwyr proffesiynol yn y sectorau iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol.
Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Corff seneddol annibynnol sy'n gyfrifol am archwilio adrannau canolog ac asiantaethau llywodraethau'r Deyrnas Unedig, a chyrrff cyhoeddus anadrannol. (https://en.wikipedia.org/wiki/National_Audit_Office_%28United_Kingdom%29)
Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru	Tîm a gomisiynwyd gan y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru i ymgymryd â gwaith sy'n effeithio ar fwy nag un o ranbarthau Cymru. Rôl gynghori sydd i'r Cydweithrediad Iechyd a rhaid i'w argymhellion

	gael eu cymeradwyo gan yr holl fyrddau iechyd yr effeithir arnynt.
Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion (NCEPOD)	Corff sy'n helpu i gynnal a gwella safonau gofal i oedolion a phlant er lles y cyhoedd drwy: <ul style="list-style-type: none"> • adolygu'r ffordd mae cleifion yn cael eu rheoli; • gwneud arolygon cyfrinachol a gwaith ymchwil i helpu i gynnal a gwella safonau gofal; • a chyhoeddi a lledaenu canlyniadau eu gweithgareddau.
Niwrolawdriniaeth	Llawfeddygaeth arbenigol sy'n golygu trin clefydau ac anhwylderau'r ymennydd a llinyn y cefn.
Llwybr	Bydd claf yn dilyn llwybr o adeg ei gysylltiad cyntaf ag aelod o staff y GIG. Cam cyntaf y llwybr yw atal clefydau ac mae'n cynnwys gofal sylfaenol, diagnosis a gwasanaethau adsefydlu.
Polisi	Set o egwyddorion, rheolau a chanllawiau y mae corff yn ei llunio neu'n ei mabwysiadu er mwyn cyflawni ei amcanion yn y tymor hir.
Bwrdd project	Y bwrdd sy'n gyfrifol am lwyddiant project, a'r bwrdd sy'n llunio'r canllawiau bydd rheolwr y project yn eu dilyn. Y bwriad yw i fwrdd y project gynrychioli pob un o randdeiliaid y project. (http://prince2.wikidot.com/project-board)
Gofal cyn mynd i'r ysbyty	Sefyllfa lle mae'r gwasanaethau ambiwlans a'r gwasanaeth hofrennydd meddygol brys yn gweithio'n agos gyda'r rhwydwaith trawma mawr i sicrhau yr anfonir cleifion sydd angen gofal brys i'r lle mwyaf addas. Bydd criw'r ambiwlans yn defnyddio technegau brysbennu i asesu cleifion ar safle'r digwyddiad er mwyn sicrhau bod y rheini

	<p>ag anafiadau trawma mawr yn cael eu cludo'n uniongyrchol i ganolfan trawma mawr i gael triniaeth frys.</p> <p>(www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/)</p>
Adsefydlu	<p>Triniaeth sydd wedi'i chynllunio i helpu unigolyn i wella o anafiadau, salwch neu glefyd ac i ddychwelyd i gyflwr sydd mor normal â phosibl.</p>
Model gwasanaeth	<p>Cynllun manwl ar gyfer math arbennig o wasanaeth gofal iechyd sydd wedi'i lunio a'i seilio ar theorïau, tystiolaeth a safonau pendant sy'n diffinio'n gyffredinol y ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu.</p>
Gwasanaethau arbenigol	<p>Mae gwasanaethau arbenigol yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd â gwahanol gyflyrau prin a chymhleth. Nid yw gwasanaethau arbenigol ar gael ym mhob ysbyty lleol am fod rhaid iddyn nhw gael eu darparu gan dimau arbenigol o feddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill sydd â'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol. Yn wahanol i'r mwyafrif o wasanaethau gofal iechyd, sy'n cael eu cynllunio a'u trefnu'n lleol, mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu cynllunio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol.</p> <p>(www.healthknowledge.org.uk/public-health-textbook/organisation-management/5b-understanding-ofs/managing-internal-external-stakeholders)</p>
Rhanddeiliaid	<p>Mae rhanddeiliad yn rhywun a fydd yn ennill neu'n colli rhywbeth o ganlyniad i broses gynllunio, rhaglen neu broject.</p>

	(www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/)
Trydydd sector	Cyrff elusennol neu wirfoddol.
Uned drawma	Ysbyty sy'n rhan o'r rhwydwaith trawma mawr ac sy'n darparu gofal i bawb heblaw am gleifion sydd â'r anafiadau trawma mawr mwyaf difrifol.
Brysbennu	Y broses o asesu cleifion a dioddefwyr i benderfynu ar y rhai a ddylai gael blaenoriaeth feddygol, a'r nod yw cynyddu nifer y rhai sy'n goroesi.
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Corff sy'n darparu gofal brys a thriniaeth o safon ym mhob rhan o Gymru, cyn mynd â'r claf i ysbyty.
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Corff sy'n gyfrifol am gyd-gynllunio gwasanaethau iechyd arbenigol ar ran y byrddau iechyd yng Nghymru.

Cyfeirnodau a dogfennau atodol

System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan (AWISS): Prifysgol Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru -

www.awiss.org.uk/category/injuries

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol *Major Trauma in England* Chwefror 2010 – (NAO 2010) www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2010/02/0910213.pdf

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)

www.nice.org.uk/guidance/ng39

Regional networks for Major Trauma: Adroddiad y Grŵp Cynghori Clinigol 2010 (CAG 2010)

www.uhs.nhs.uk/Media/SUHTInternet/Services/Emergencymedicine/Regionalnetworksformajortrauma.pdf

SAIL Emergency Department Data Set (EDDS): Prifysgol Abertawe 2016

[www.saildatabank.com/data-dictionary/sail-datasets/emergency-department-data-set-\(edds\).aspx](http://www.saildatabank.com/data-dictionary/sail-datasets/emergency-department-data-set-(edds).aspx)

Adroddiad SchARR, 2015

Specialist major trauma networks and terrorist events: to care for many, care for one. The King's Fund

<https://www.kingsfund.org.uk/blog/2017/07/specialist-major-trauma-networks-and-terrorist-events-care-many-care-one>

Urgent and emergency care services in England

www.nhs.uk/NHSEngland/AboutNHSservices/Emergencyandurgentcareservices/Pages/Majortraumaservices.aspx

The Trauma Audit & Research Network www.tarn.ac.uk

Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys

Ymateb i'r ymgynghoriad

Sut mae ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 9 o'r gloch fore'r 5^{ed} Chwefror 2018.

Llenwch y ffurflenni sy'n dilyn ac anfonwch eich ymateb at:

E-bost: NHSWHC.strategicplanning@wales.nhs.uk

Post: Freepost MAJOR TRAUMA CONSULTATION
(Rhaid i chi ysgrifennu'r cyfeiriad yn union fel yr uchod,
gan gynnwys y priflythrennau.)

Gallwch chi lwytho copi o'r ffurflen ymateb i lawr o'r wefan:

www.publichealthwales.org/majortraumaconsultation

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan uchod neu cysylltwch â
Chydweithrediad Iechyd y GIG yng Nghymru ar y cyfeiriadau post neu e-
bost uchod, neu ffoniwch nhw ar 02920 502674.

Diogelu data

Ein dulliau o ddefnyddio'r farn a'r wybodaeth byddwch chi'n eu rhoi i ni.

Bydd staff y GIG yng Nghymru sy'n delio â'r materion dan sylw yn yr
ymgynghoriad hwn yn gweld yn llawn unrhyw ymateb byddwch chi'n ei
anfon atom. Efallai bydd rhai o staff eraill y GIG yng Nghymru'n gweld
eich ymateb er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau eraill yn y
dyfodol.

Efallai bydd rhannau o ymatebion pobl, neu ffurflenni ymateb cyfan, yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad i'w ystyried mewn cyfarfodydd cyhoeddus o'r byrddau iechyd ym mis Mawrth 2018. Byddwn ni bob amser yn enwi cyrff.

Eich ymateb

Eich cod post:

Ydych chi'n ymateb ar ran corff/mudiad?

Rhowch dic

Ydw

Nac ydw

Os ydych yn ymateb ar ran corff, beth yw ei enw?

Beth yw eich grŵp oed? Rhowch dic

Yn iau nag 16 oed

Rhwng 16 a 24 oed

Rhwng 25 a 34 oed

Rhwng 35 a 44 oed

Rhwng 45 a 54 oed

Rhwng 55 a 64 oed

Rhwng 65 a 74 oed

75 oed neu'n hŷn

Well gen i beidio â dweud

Diddordebau i'w datgan

(Er enghraifft, ydych chi'n gweithio i'r GIG neu i fwrdd iechyd? Os ydych chi, rhowch enw'r corff.)

Atebwch y cwestiynau ar y tudalennau nesaf. Ychwanegwch dudalennau eraill os oes angen.

- Tanlinellwch ac amlygwch unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu unrhyw ddeunydd arall nad ydych yn awyddus iddo fod yn gyhoeddus
- Peidiwch â chynnwys gwybodaeth feddygol amdanoch chi neu berson arall a allai fod yn ffordd i rywun arall eich adnabod chi neu'r person arall
- Peidiwch â defnyddio unrhyw fyrfoddau – ysgrifennwch enwau a geiriau'n llawn
- Am resymau hawlfraint, ni ddylai ffurflenni sylwadau gynnwys atodiadau fel erthyglau ymchwil, llythyrau neu daflenni

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar y canlynol.

Mae llawer o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod cleifion sy'n dioddef trawma mawr yn fwy tebygol o oroesi ac o wella'n dda os ydyn nhw'n cael triniaeth o fewn rhwydwaith trawma mawr.

Mae'r panel annibynnol wedi edrych ar y dystiolaeth ar gyfer sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys, a gwnaeth yr argymhellion canlynol.

- Dylid mynd ati'n gyflym i sefydlu rhwydwaith trawma mawr sydd ag isadeiledd llywodraethu clinigol yn Ne Cymru
- Dylai'r canolfannau trawma mawr i oedolion a'r un i blant fod ar yr un safle
- Dylai'r ganolfan trawma mawr fod yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd
- Dylai Ysbyty Treforys fynd yn uned drawma fawr a dylai gael rôl arweiniol yn y rhwydwaith trawma mawr

- Dylid gosod amserlen glir a realistig ar gyfer y gwaith o greu'r rhwydwaith trawma

1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys? (Rhowch dic yn y bocs priodol)

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Rhowch eich rhesymau dros wneud eich dewis.


2. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys gael ei sefydlu ar argymhellion y panel annibynnol? (Rhowch dic yn y bocs priodol)

Cytuno


Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno


Rhowch eich rhesymau dros wneud eich dewis.



3. Os byddwn ni'n sefydlu rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys, a ddylem ni ystyried unrhyw beth arall?



4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?



Monitro cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn trin y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau'n deg a gydag urddas a pharch. Gallwn ni gyflawni hyn drwy ddysgu mwy amdanoch chi. A wnewch chi roi'r wybodaeth isod i'n helpu i gyflawni ein nod? Byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ddiennw ac yn ei defnyddio wrth ddadansoddi ymatebion pobl yn unig. Byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ac ni fyddwn yn rhoi eich enw i neb arall.

Rhowch dic mewn un bocs yn unig ar gyfer pob cwestiwn.

Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

- | | |
|---------------------------|--------------------------|
| Yn iau nag 16 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 16 a 24 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 25 a 34 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 35 a 44 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 45 a 54 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 55 a 64 oed | <input type="checkbox"/> |
| Rhwng 65 a 74 oed | <input type="checkbox"/> |
| 75 oed neu'n hŷn | <input type="checkbox"/> |
| Well gen i beidio â dweud | <input type="checkbox"/> |

Beth yw eich rhyw?

- | | |
|---------------------------|--------------------------|
| Benywaidd | <input type="checkbox"/> |
| Gwrywaidd | <input type="checkbox"/> |
| Arall | <input type="checkbox"/> |
| Well gen i beidio â dweud | <input type="checkbox"/> |

Ydych chi'n adnabod eich hun yn ôl y rhyw a roddwyd i chi ar adeg eich geni?

- | | |
|---------------------------|--------------------------|
| Ydw | <input type="checkbox"/> |
| Nac ydw | <input type="checkbox"/> |
| Well gen i beidio â dweud | <input type="checkbox"/> |

Beth yw eich grŵp ethnig?

- Gwyn
- Cymysg neu sawl grŵp ethnig
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig
- Unrhyw grŵp ethnig arall
- Well gen i beidio â dweud

Anabledd

Ydy'ch gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu o achos problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddi bara, am 12 mis o leiaf?

- Ydyn, wedi'u cyfyngu'n arw
- Ydyn, wedi'u cyfyngu rywfaint
- Nac ydyn
- Well gen i beidio â dweud

Beth yw eich rhywioldeb?

- Heterorywiol neu syth
- Hoyw neu lesbaidd
- Deurywiol
- Arall
- Well gen i beidio â dweud

Crefydd

Beth yw eich crefydd?

- Dim crefydd
- Cristion (pob enwad)
- Bwdaidd
- Hindwaidd
- Iddewig
- Mwslimaidd
- Sikhaidd
- Unrhyw grefydd arall (disgrifiwch).....
-

Ydych chi'n siarad Cymraeg?

Ydw

Nac ydw

Well gen i beidio â dweud

Ydych chi'n ofalwr?

Ydw

Nac ydw

Well gen i beidio â dweud

Ydych chi'n un o gyflogeion y GIG?

Ydw

Nac ydw

Well gen i beidio â dweud